# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

## Cofnodion (EL(3) 13-09)

**Dyddiad: Dydd Iau, 4 Mehefin 2009**
**Amser: 13.00 - 15.15**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Gareth Jones (Cadeirydd), Aberconwy
Christine Chapman, Cwm Cynon
Jeff Cuthbert, Caerffili
Paul Davies, Preseli Sir Benfro
Nerys Evans, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Huw Lewis, Merthyr Tudful a Rhymni
David Melding, Canol De Cymru
Sandy Mewies, Delyn
Jenny Randerson, Canol Caerdydd

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Siân Phipps, Clerc
Daniel Collier, Dirprwy Glerc

### Arbenigwyr y Pwyllgor

Graham Winter, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Victoria Paris, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Cynghorwyr Cyfreithiol

Gwyn Griffiths, Gwasanaethau Cyfreithiol
Stephen Davies, Gwasanaethau Cyfreithiol

### Eraill yn bresennol

James Price, Cyfarwyddwr Trafnidiaeth ac Adfywio Strategol
Simon Shouler, Cyfarwyddwr yr Is-adran Ffyrdd a Phrosiectau
Alison Jones, Peiriannydd Diogelwch ar y Ffyrdd, yr Is-adran Ffyrdd a Phrosiectau
Martin Stevenson, Cyfarwyddwr Gweithredol, Polisi Trafnidiaeth
Lee Waters, Cyfarwyddwr, Sustrans Cymru

Ryland Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr, Sustrans Cymru
Richard Brunstrom, Prif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru
Y Rhingyll Alan Jones, Heddlu Gogledd Cymru

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

### 2: Cefnffyrdd a lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu mewn damweiniau
### Papurau: EL(3) 13-09 - Papur 1, EL(3) 13-09 - Papur 2, EL(3) 13-09 - Papur 3

**Llywodraeth Cynulliad Cymru** 2.1 Croesawodd y Pwyllgor James Price, Cyfarwyddwr Trafnidiaeth ac Adfywio Strategol, Simon Shouler, Cyfarwyddwr yr Is-adran Ffyrdd a Phrosiectau, Alison Jones, Peiriannydd Diogelwch ar y Ffyrdd, yr Is-adran Ffyrdd a Phrosiectau a Martin Stevenson, Cyfarwyddwr Gweithredol, Polisi Trafnidiaeth i'r cyfarfod. 2.2 Holodd Aelodau'r Pwyllgor y swyddogion o Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Sustrans**

2.3 Croesawodd y Pwyllgor Lee Waters, Cyfarwyddwr Sustrans a Ryland Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr Sustrans Cymru i'r cyfarfod.

2.4 Holodd Aelodau'r Pwyllgor y tystion.

**Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru**

2.5 Croesawodd y Pwyllgor Richard Brunstrom, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a'r Rhingyll Alan Jones, Heddlu Gogledd Cymru, i'r

cyfarfod.

2.6 Holodd Aelodau'r Pwyllgor y tystion.

**Camau i'w cymryd:**

Cytunodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi:

manylion y gwerthusiad o'r ymgyrchoedd diogelwch ar y ffyrdd, ac yn benodol, y modd y caiff mentrau eu hariannu drwy'r Grant Diogelwch Ffyrdd Lleol a'r Grant Trafnidiaeth ar gyfer Llwybrau Diogel i Gymunedau.

rhestr o'r cefnffyrdd yng Nghymru lle y mae damweiniau tybiedig a damweiniau gwirioneddol yn digwydd.

ffigurau ar record diogelwch cefnffyrdd 3 lôn a chefnffyrdd 2+1 lôn.

Cytunodd Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru i roi:

manylion ar raddfa cydymffurfio cerbydau a gafodd eu harchwilio yn ystod archwiliadau blynyddol ar hap.

### 3: Gorchymyn Arfaethedig Pwyllgor, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Llwybrau Didraffig) 2009
### Papur: EL(3) 13-09 - Papur 4

3.1 Diwygiodd y Pwyllgor ei Orchymyn Arfaethedig, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Llwybrau Didraffig) 2009, a fydd bellach yn dwyn y teitl Gorchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Priffyrdd a Thrafnidiaeth) 2009.

3.2 Gwnaeth Aelodau'r Pwyllgor sylwadau ar y Memorandwm Esboniadol a fydd yn cyd-fynd â'r Gorchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Priffyrdd a Thrafnidiaeth) 2009, a chytunodd yr Aelodau arno.

3.3 Awdurdododd y Pwyllgor Gareth Jones AC i fod yn "Aelod sy'n gyfrifol" o'r Gorchymyn Arfaethedig Pwyllgor.

3.4 Cytunodd y Pwyllgor i fwrw ymlaen â'i Orchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Priffyrdd a Thrafnidiaeth) 2009, a gaiff ei osod yn unol â Rheolau Sefydlog 22.13 a 22.14 ynghyd â'r Memorandwm Esboniadol, a chytunodd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes.

**Papur i'w nodi:**

### Cofnodion y cyfarfod blaenorol
### Papur: EL(3) 11-09 - Cofnodion

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai.

**Sesiwn breifat**

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi) cytunodd y Pwyllgor i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

### 4: Adroddiad drafft y Pwyllgor ar Lwfansau Cynhaliaeth Addysg 2009

4.1 Gwnaeth Aelodau'r Pwyllgor sylwadau ar ei adroddiad drafft ar Lwfansau Cynhaliaeth Addysg a gyhoeddir yn fuan, a chytunodd yr Aelodau arno.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Mehefin 2009**